# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Ddementia
Cofnodion: Mehefin 2018

Ystafelloedd Seminar 1 a 2, Adeilad y Pierhead
12:00 – 1:15pm, Dydd Mawrth 19 Mehefin 2018
Cadeirydd: Lynne Neagle AC
Pwnc: Gofal sy'n pontio'r cenedlaethau

## Yn bresennol

Lynne Neagle AC (Cadeirydd); Suzy Davies AC; Rhun ap Iorwerth AC; Heledd Roberts (swyddfa Rhun ap Iorwerth AC); Mandy Jones AC; Julie Price (swyddfa Mandy Jones AC); Madeleine Rees (swyddfa Jayne Bryant AC)

Sophie Douglas (Cymdeithas Alzheimer Cymru - ysgrifenyddiaeth y grŵp trawsbleidiol); Sue Phelps (Cymdeithas Alzheimer Cymru); Janet Bevan (BIP Cwm Taf); Harriet Collie (BIP Caerdydd a'r Fro); Rosslyn Offord (BIP Caerdydd a'r Fro); Suzanne Duval (Diverse Cymru); Catrin Edwards (Hospice UK); Clair Stevenson (Gofal a Thrwsio Cymru).

Ceri Higgins, Nigel Hullah, Chris Roberts, Jayne Goodrick (pobl y mae dementia yn effeithio arnynt / gwirfoddolwyr / gweithgor dementia y tair cenedl (3 Nations Dementia Working Group).

Cynrychiolwyr o Ysgol Gynradd Griffithstown, Pont-y-pŵl – Ceri Pugh – Dirprwy Bennaeth, Charlotte Kembrey – Athro Blwyddyn 6, gyda 10 o ddisgyblion Blwyddyn 6

## Croeso gan y Cadeirydd ac ymddiheuriadau

- Croesawodd **Lynne Neagle AC** bawb i'r cyfarfod
- Ymddiheuriadau: Simon Thomas AC

## Adborth yn dilyn y cyfarfod blaenorol

- Gohebiaeth rhwng **Lynne Neagle AC** a'r **Gweinidog dros Blant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol** – cadarnhaodd y byddai gofalwyr yn cael eu cynnwys yng ngrŵp cynghori'r Gweinidog.
- Gohebiaeth rhwng **Lynne Neagle AC** ac **Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** – rhoddodd peth eglurder o ran y £10 miliwn a neilltuwyd i roi'r cynllun gweithredu dementia ar waith, ond erys cwestiynau ynghylch dosbarthiad y gronfa gofal integredig:
    - Pa mor aml y bydd angen cyflwyno ceisiadau?
    - A yw'r canllawiau ar gyfer byrddau iechyd lleol yn ddigon cadarn?
    - A fydd y cyllid yn croes-gymorthdalu gwasanaethau presennol neu a fydd ar gael ar gyfer gwasanaethau newydd?
- Bydd y **Grŵp Sicrwydd Cyflenwi a Gweithredu ar Ddementia** yn cyfarfod am y tro cyntaf ar 26 Gorffennaf, ac ar ôl hynny bydd aelodau'r grŵp yn adrodd yn ôl i'r grŵp trawsbleidiol ar unrhyw gwestiynau sy'n weddill o ran y gronfa gofal integredig. Gall hyn fod yn sail i gwestiynau ysgrifenedig i'w cyflwyno gan **Lynne Neagle AC.**

## Cyflwyniad gan Ysgol Gynradd Griffithstown

Rhannodd disgyblion Blwyddyn 6 eu profiadau o'r 'awr aur' ar brynhawn dydd Gwener, pan fydd y plant yn ymweld â phobl yr effeithir arnynt gan ddementia mewn ysbytai a chartrefi gofal lleol. Mae'r ysgol gyfan wedi cofrestru fel Ffrindiau Dementia, ac maent wedi ennill gwobrau am gefnogi'r achos.

## Sesiwn holi ac ateb

- Diolchodd **Nigel Hullah** i'r ysgol am eu hymdrechion, gan ddathlu'r ffaith fod cenhedlaeth o bobl iau â dealltwriaeth o ddementia.
- Gofynnodd **Sue Phelps** i'r plant a oedd y profiad wedi codi ofn arnynt, a chytunasant ei fod wedi gwneud hynny. Fodd bynnag, fel y dywedodd un ferch ifanc, 'maent yn dal i fod yn bobl' ac nid oedd y profiad yn frawychus ar ôl iddynt gwrdd â'r bobl â dementia a gwneud ffrindiau gyda nhw.
- Canmolodd **Jan Bevan** y plant am eu diddordeb mewn gweithio ym maes gofal iechyd.
- Anogodd **Suzy Davies AC** y plant i ystyried y llwybrau gyrfa gwahanol y gallent eu dilyn i helpu pobl â dementia.
- Rhannodd **Mandy Jones AC** rai o'i phrofiadau personol a diolchodd i'r plant am gefnogi pobl yn yr ysbyty.
- Awgrymodd **Ceri Higgins** y dylid cysylltu â'r Senedd Ieuenctid newydd i sicrhau bod y cenedlaethau iau yng Nghymru yn dod yn fwy ymwybodol o ddementia.
- Tynnodd **Ceri Pugh** sylw at gynhadledd a fydd yn digwydd yn ystod yr wythnos yn dechrau 25 Mehefin yn Malpas, gyda dros 500 o gynrychiolwyr o ysgolion yn Ne Ddwyrain Cymru, gan annog mwy o brosiectau sy'n pontio'r cenedlaethau.
- Gofynnodd **Rhun ap Iorwerth AC** i'r plant a ydynt yn dweud wrth eu ffrindiau am eu hamser gyda phobl yr effeithir arnynt gan ddementia. Esboniodd un disgybl fod ei modryb yn athrawes sy'n ceisio lansio prosiect tebyg mewn ysgol arall, a soniodd disgybl arall am sut roedd hi wedi mynd ati i annog ei chefnder i wneud yr un peth .

## Unrhyw fater arall

- Dywedodd **Catrin Edwards** fod y Grŵp Trawsbleidiol ar Hosbisau a Gofal Lliniarol yn bwriadu lansio ei adroddiad ymchwiliad ar 11 Gorffennaf. Darperir manylion gyda'r cofnodion.
- Dosbarthodd **Nigel Hullah** gopïau o ganllaw iaith Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ar gyfer eu staff. Canmolodd eu dulliau gweithredu o ran cynnwys pobl â dementia drwy gydol y broses o ddatblygu'r canllaw, a chanmolodd hefyd ymrwymiad yr ymddiriedolaeth i gefnogi pobl â dementia
- Tynnodd **Sophie Douglas** sylw at ymgyrch Cymdeithas Alzheimer Cymru i sicrhau bod pob Aelod Cynulliad yn dod yn Ffrind Dementia (35 allan o 60 sydd yn Ffrindiau Dementia ar hyn o bryd), a'r adroddiad a wnaed ar y cyd gyda Chomisiynydd yr Iaith Gymraeg ar ddarparu cefnogaeth a gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg ar draws y genedl, i'w gyhoeddi yn ddiweddarach eleni. Cynhelir digwyddiad yn yr Eisteddfod ym mis Awst – bydd y manylion yn cael eu dosbarthu i'r grŵp.

## Camau i'w cymryd

- **Lynne Neagle AC** i ysgrifennu at Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i gymeradwyo eu gwaith ar gefnogi pobl â dementia a'u hymrwymiad i wella gwasanaethau. Bydd **Aelodau Grŵp** yn codi'r mater yn y Siambr.
- **Lynne Neagle AC** i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r camau canlynol gyda'r cynllun gweithredu ar gyfer dementia:

  > *Rhoi cyhoeddusrwydd ac annog sefydliadau addysg i ddefnyddio'r adnoddau "Creating a Dementia Friendly Generation" a ddatblygwyd gan Gymdeithas Alzheimer er mwyn cynyddu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth rhyng-genhedlaeth (rhif sylfaenol: Medi 2017 ac adolygiad blynyddol wedyn).*

- **Lynne Neagle AC** i gyflwyno cwestiynau ysgrifenedig i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gofyn am eglurhad pellach ar ddosbarthiad y Gronfa Gofal Integredig (yn dibynnu ar adborth gan y Grŵp Sicrwydd Cyflenwi a Gweithredu ar Ddementia).
- Cytunwyd y byddai'r grŵp yn ystyried cyfleoedd i gysylltu â Senedd Ieuenctid Cymru a dylanwadu arni (Tynnodd **Lynne Neagle AC** a **Rhun ap Iorwerth AC** sylw at y cyfleoedd i 'sefydliadau cefnogol' enwebu aelodau, ac eglurodd **Suzy Davies AC** y byddai angen i'r grŵp lobïo'r Senedd Ieuenctid i roi dementia ar ei agenda)
- Cytunwyd y byddai'r grŵp yn archwilio'r cyfle i gynnal ymchwiliad ffurfiol i ofal ysbyty i bobl â dementia yn yr hydref – bydd y cylch gorchwyl yn cael ei drafod yn y cyfarfod ym mis Hydref 2018.

## Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf

- Dydd Mawrth 9 Hydref 2018 - Ystafelloedd Seminar 1 a 2, Adeilad y Pierhead
- Dydd Mawrth 4 Rhagfyr 2018 - Ystafelloedd Seminar 1 a 2, Adeilad y Pierhead
- Dydd Mawrth 5 Mawrth 2019 - Ystafelloedd Seminar 1 a 2, Adeilad y Pierhead
- Dydd Mawrth 11 Mehefin 2019 - Ystafelloedd Seminar 1 a 2, Adeilad y Pierhead